# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 2 Chwefror 2016

Amser: 08.30 - 08.34

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | David Melding (Cadeirydd)<br>Paul Davies<br>Jane Hutt<br>Elin Jones<br>Aled Roberts |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Llywydd. Cadeiriodd y Dirprwy Lywydd y cyfarfod yn ei habsenoldeb.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Dydd Mawrth, bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad ar Tata Steel.

Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai pob pleidlais mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), ddydd Mawrth, a pob pleidlais mewn perthynas â'r Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru), ddydd Mercher, yn digwydd yn ystod trafodion Cyfnod 3.

Nododd y Rheolwyr Busnes y bydd y pleidleisio ar bob eitem arall o fusnes ddydd Mawrth a dydd Mercher yn digwydd cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 2 Mawrth 2016 –**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

### 3.4 Dadl Aelod Unigol: Dewis y Cynnig ar gyfer y Ddadl

Dewisodd y Pwyllgor Busnes y ddau gynnig a gyflwynwyd ar gyfer y ddadl.

**Dydd Mercher 10 Chwefror 2016**

- **NNDM 5942**
  **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**
  **Elin Jones (Ceredigion)**
  **Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**
  **Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

  Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

  1. Yn gresynu at nifer y canghennau banc sydd wedi'u cau yng Nghymru ac, yn arbennig, pa mor aml y mae canghennau yn cael eu cau hyd yn oed pan mai'r gangen banc yw'r banc olaf yn yr ardal.

  2. Yn galw ar fanciau i ystyried effaith cau canghennau banc ar gymunedau trefol a gwledig ac unigolion, yn enwedig pobl hŷn a busnesau bach, cyn i benderfyniadau terfynol gael eu gwneud ynghylch cau.

  3. Yn galw ar fanciau i gynnal ymgynghoriad ystyrlon, gan gynnwys sefydliadau cymunedol lleol, sefydliadau pensiynwyr a grwpiau busnes cyn dod i benderfyniadau terfynol ynghylch cau canghennau, yn enwedig pan mai'r gangen banc dan sylw yw'r unig un sydd ar ôl yn yr ardal.

  4. Yn galw ar Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol i sicrhau eu bod yn ystyried effaith cau canghennau banc wrth lunio eu polisïau perthnasol ar wasanaethau ariannol, datblygu economaidd a rheoleiddio ariannol.

**Dydd Mercher 9 Mawrth 2016**

- **NNDM4945**

**Eluned Parrott (Canol De Cymru)**
**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**
**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at y ffaith bod rhwng 300 a 350 o bobl yn marw o ganlyniad hunanladdiad bob blwyddyn yng Nghymru, gyda'r ffigurau diweddaraf yn dangos mai hunanladdiad yw'r prif achos o farwolaeth ymhlith pobl ifanc rhwng 20 a 34 oed.

2. Yn cydnabod bod pobl sydd wedi cael diagnosis o gyflwr iechyd meddwl mewn perygl arbennig ac amcangyfrifir bod gan 90 y cant o bobl sy'n ceisio cyflawni hunanladdiad neu'n marw o ganlyniad i hunanladdiad un neu fwy o gyflyrau iechyd meddwl.

3. Yn credu bod angen gwneud mwy i annog pobl i siarad yn agored am hunanladdiad a theimladau hunanladdol, i godi ymwybyddiaeth a helpu i sicrhau nad oes neb yn cael eu gadael i deimlo eu bod yn dioddef ar eu pen eu hunain.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gwella'r broses o gasglu data i adnabod y rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf;

b) sicrhau bod cymorth dilynol ar gael i bobl sy'n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys ar ôl hunan-niweidio neu geisio cyflawni hunanladdiad;

c) darparu ffyrdd mwy effeithiol o gyfeirio pobl at wasanaethau gwrando ac eiriolaeth;

d) edrych ar gyflawni prosiectau megis y parth tawelwch yn Lerpwl sy'n darparu cyngor blaengar mewn ffordd sy'n briodol i oedran ac sy'n apelio at

bobl ifanc, ac enghreifftiau cenedlaethol a rhyngwladol eraill o arferion gorau; ac

e) asesu'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd unigolion sydd â salwch meddwl.

# 4 Rheolau Sefydlog

## 4.1 Newidiadau amrywiol i'r Rheolau Sefydlog

O ganlyniad i'r rhaglen o ddiwygio Rheolau Sefydlog a gytunwyd gan y Pwyllgor Busnes ym mis Mai 2014, trafododd y Rheolwyr Busnes bapur yn nodi'r newidiadau amrywiol arfaethedig i Reolau Sefydlog 26, 18 a 30A.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau ac a thrafod y papur eto yn y cyfarfod ar 23 Chwefror 2016.